

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 23 Ebrill 2018

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Ms J Ferry **JF**, Mrs Bethan Hughes **BH**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Mr Victor Owen **VO**, Miss Jane Ann Roberts **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Llinos Medi Huws **LMH**, Ms RW Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: Mr OG Roberts **OGR**.

2. Datgan Diddordeb:

3. Cofnodion Mawrth 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. Nodwyd fod angen un addasiad- **EJ** ddim yn bresennol yng nghyfarfod Mawrth.

3.1 Nododd y clerc fod yr hysbyswrdd yn barod i'w osod ond mae dim ond un pris oedd wedi gallu ei dderbyn i'w osod. Y clerc i barhau a derbyn i dyfnbris.

3.2 Nodwyd fod Rhun ap Iorwerth yn parhau gyda ceisio cael Julie James i ymweld a Ynys Mon, ac y dyddiad i'w gadarnhau. Nodwyd byddai'n ddoeth casglu hynnu o wybodaeth a gallwn i bwysleisio y problemau gyda band eang. Y clerc i drefnu sesiwn agored i alluogi pobol i gofnodi eu problemau yn fanwl, a hefyd rhoi cyfle i ateb holiadur ar lein i'r rhai fyddai methu mynychu ac wedyn pasio'r wybodaeth ymlaen i Rhun ap Iorwerth.

3.3 Nododd y clerc ei bod wedi pasio'r pryderon ynglyn a'r biniau yn orlawn i CSYM ac wedi gwneud ymholiad am bris un bin bach newydd ac un bin mawr i gymharu.

4. Ffrindiau Bodedern

Nododd **CJ** fod hysbyseb wedi mynd allan i geisio dennu aelodau newydd, gan nad yw'r cadeirydd yn bwriadu parhau. Gofynnydd **CJ** i'r aelodau basio'r wybodaeth ymlaen i unrhyw un a fyddai gyda diddordeb.

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Materion Cynllunio.

Cais 13C17K

Cais llawn i godi porth car domestig a gweithdy yn Yr Allt, Bodedern.

Dim gwrthwynebiad.

6. Cais am diffribliwr

6.1 Derbyniwyd ebost gan Ysgol Uwchradd Bodedern ynglyn a ceisio cael diffibriliwr i'r gymuned ac fod Ysgol Syr Thomas Jones wedi llwyddo gyda cymorth gan cynghorwr Richard Owain Jones, ac mae cynghorwr Ken Huws wedi cysylltu a fo am wybodaeth pellach. Cytunwyd y byddai'n ychwaneigiad da i wasanaethau'r pentref.

7. Gohebiaeth.

Dim

8. Taliadau i'w gwneud.

Mon GC MGC2571	Rhif Siec 200041	£240.00
Cyflog Clerc Ion/Chwe/Maw	Rhif siec 200043/44	£480.00 & HMRC £120.00

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Unrhyw fater arall.

EABT yn nodi fod arwydd Stryd Baptist wedi ei ddinistrio. Y clerch i gysylltu a **CSYM** am arwydd newydd. Nodwyd hefyd fod golwg bler ogwmpas y kiosg. Nododd y clerch ei bod wedi gofyn i'r adran dai ei glirio ar gyfer gosod yr hysbysfwrdd. Y clerch i gysylltu eto, a chopio **LMH** i mewn.

VO yn nodi ei fod wedi derbyn mynegiant o bryder gan aelod o'r cyhoedd ynglyn a coed yn gor dyfu yn Bron y Graig. Nododd **LMH** os mai'r adran dai sydd berchen a'r ty yna byddent yn gyfrifol o'u diogelu.

VO i basio'r wybodaeth ymlaen.

JF yn nodi ei bod wedi derbyn cwyn fod gor yrru ar y lon tu allan i'r swyddfa bost, ac yn beryg i blant bach groesi. Nododd y clerch gallai gysylltu a **CSYM** ond nododd **LMH** nad oedd lle i fesur cyflymder yn y fan yna. Nodwyd fod llawer o drafnidiaeth yn defnyddio'r lon e.e. bysiau, lorïau ayyb ac oherwydd y parcio ar y lon doedd dim llawer o gyfle i or yrru yn y man yma, ond byddai'n ddoeth monitro y sefyllfa.

AJ yn nodi bod rhai trigolion yr ardal yn mynychu'r Neuadd Goffa bob pythefnos, ac eu bod wedi nodi pryderon ynglyn a chyflwr y Neuadd. Nodwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol o'r Neuadd, a chredwyd efallai fod pwyllgor newydd o aelodau yn y Neuadd.